Ymgynghoriad ar ddiwygio'r trothwy ar gyfer llinellau trydan uwch ben y tir yn Neddf Cynllunio 2008

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn mewn perthynas â chynnig i ddiwygio'r trothwy yn Neddf Cynllunio 2008 sy'n diffinio llinell drydan uwch ben y tir fel "project seilwaith o bwys cenedlaethol" (NSIP). Ar hyn o bryd, mae'r trothwy a bennwyd yn y Ddeddf ar gyfer llinellau trydan â foltedd enwol o 132 cilofolt (kV) neu fwy. Rhaid cyflwyno pob cais am ganiatâd datblygu mewn perthynas â llinellau trydan neu waith ar linellau trydan sy'n bodoli eisoes ar y trothwy neu'n uwch nag ef, i'r Arolygiaeth Gynllunio eu harchwilio, a'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu arnynt yn unol â gofynion statudol y Ddeddf a'r Rheoliadau sy'n rhoi grym iddynt.

Ers i'r Ddeddf ddod i rym ar 1 Mawrth 2010, mae hi wedi dod yn amlwg bod y trothwy yn gofyn bod ceisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer mân waith ar linellau trydan yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) o dan broses gyflawn y Ddeddf, sy'n cynnwys ymgynghori cyn cyflwyno cais, archwilio ac argymell. Mae'r mân-waith yma, er enghraifft, gosod darnau byr o linellau newydd sy'n pontio ychydig o bolion pren neu beilonau, mân-estyniadau i linellau cyfredol ger isbwerdai a gwyriadau byr ar linellau sy'n bodoli eisoes, yn annhebygol o fod o bwys cenedlaethol.

Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod hi'n anghymesur i geisiadau am waith mor fach gael eu paratoi a'u penderfynu yn yr un modd â cheisiadau sy'n ymwneud â phrojectau seilwaith mawr.

Mae trefn sefydledig yn bodoli ar gyfer caniatâd datblygu o dan adran 37 o Ddeddf Trydan 1989, a oedd yn gymwys i bob llinell trydan uwch ben y tir cyn i'r Ddeddf Cynllunio ddod i rym ym mis Mawrth 2010, ac mae hi'n dal yn gymwys i ganiatâd datblygu ar gyfer llinellau trydan â foltedd enwol sy'n llai na 132kV. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n fwy cymesur gwneud penderfyniadau am fân-waith ar linellau trydan 132kV a mwy uwch ben y tir o dan a.37 o'r Ddeddf Trydan.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig sawl opsiwn ar gyfer diwygio Deddf Cynllunio 2008. Sef:

(i) Peidio â diwygio'r Ddeddf, gan adael y trothwy ar foltedd enwol o 132kV (h.y. parhau i benderfynu ar bob darn o waith ar linellau 132kV neu fwy o dan y Ddeddf).

(ii) Diwygio'r trothwy yn y Ddeddf i fod yn fwy na foltedd enwol o 132kV (h.y. dim ond gweithiau ar linellau â foltedd enwol sy'n fwy na 132kV a fyddai'n cael eu penderfynu o dan y Ddeddf).

(iii) Ychwanegu maen prawf pellach at y trothwy o 132kV o ran foltedd enwol fel bod y Ddeddf yn gymwys i linellau â foltedd enwol o 132kV *ac* sy'n fwy na 2 gilomedr (km) o hyd, ond heb gynnwys ceisiadau i uwchraddio foltedd enwol llinellau trydan, beth bynnag fo'u hyd, lle nad oes unrhyw newid i'r seilwaith ffisegol sydd ohoni.

(iv) Diwygio'r trothwy fel taw dim ond llinellau â foltedd enwol o fwy na 132kV sy'n "Ddatblygiadau EIA", sy'n galw am asesiad o effeithiau amgylcheddol (EIA) (fel y'i diffinnir yn y gyfarwyddeb ar Asesiadau Amgylcheddol a'r rheoliadau sy'n rhoi grym iddynt), fyddai'n gofyn am ganiatâd datblygu o dan y Ddeddf Cynllunio.

Mae adrannau 5 a 7 yn disgrifio'r opsiynau yn fanwl ac yn dadansoddi costau a manteision posibl pob opsiwn.

Dewis y Llywodraeth o blith yr uchod fyddai opsiwn (iii).